


Rhieni!... A oes gennych blentyn
disglair sy'n serennu mewn
celf a chreffft?



Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o ddosbarthiadau meistri arbennig, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel
- Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft
- Dysgu am yrfaedd ym maes celf
- Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu

DYDDIAD CAU!
8 Rhagfyr

Enwebu eich plentyn...



Fel rhiant gallwch enwebu eich plentyn os ydynt wedi eu hadnabod fel disgybl **Mwy Abl a Thalentog (MATH)** ym maes celf a'u bod ym mlwyddyn 5 i 9 i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrwch enghraifft o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **8 Rhagfyr**, darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

*Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru
ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.*



CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY



Cyflwyno gwaith celf...

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod...

- Darn o waith celf wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng, ar unrhyw ffurf (2D, 3D neu 4D) o dan y teitl 'Fy Hoff Waith Celf Personol'
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

Os yr hoffai'r disgybl(ion) gyflwyno gwaith 4D megis ffilm neu waith animeiddio digidol gellid ei ebostio at gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk yn hytrach na phostio.

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ar gefn y gwaith celf. Defnyddiwch y daflen label ar dudalen 3 o'r bamffled hon a'i atodi i'r gwaith. Byddwch hefyd angen cael athro/athrawes eich plentyn i lofnodi'r daflen label i gadarnhau fod eich plentyn wedi cael eu hadnabod fel disgybl MATH. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith. Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynyachu rhaglen o ddsbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2018; cychwyn da i'r flwyddyn newydd!

Cyfeiriad...

Criw Celf Sir y Fflint, Adran Celfyddydau,
Diwylliant a Digwyddiadau,
Cyngor Sir y Fflint, Theatr Clwyd,
Yr Wyddgrug CH7 1AY
Gwenno Eleri Jones 01352 702471

Bwrsari ar gael i
gefnogi plant sy'n
derbyn cinio am ddim
yn ysr ysgol,
cysylltwch am y
manylion.

**Ffi ymaelodi i rai
llwyddiannus £38**

Label!

Atodwch y daflen label hon i'r gwaith celf yr ydych yn gyflwyno.

Please attach this label sheet to the artwork you are submitting.

Fy Hoff Waith Celf / My Favourite Artwork

Enw / Name: _____ Bl. Ysgol / School Yr.: _____

Ysgol / School: _____

Cyfeiriad Cartref / Home Address: _____

Rhif Ffôn Cartref / Home Phone No.: _____

A yw'r plentyn wedi bod yn aelod o Criw Celf o'r blaen? / Has the child been a member of Criw Celf in the past? Do / Yes: Naddo / No:

A yw'r disgybl wedi ei adnabod fel disgybl MATH ym maes celf? / Has the pupil been identified as a MAT art pupil?: Do / Yes: Naddo / No:

Enw a llofnod yr athro / Teacher's name & signature: _____

Paragraff Byr / Short Paragraph...
